

Digimap for Schools

Awgrymiadau ar gyfer defnyddio Digimap for Schools

Alan Parkinson

Adnodd addysgu Daearyddiaeth
Cyfnod Allweddol 3



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r lluo o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd fel eu bod yn gweddu eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

12 o syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth neu waith cartref (Uwchradd)

Dyma rai syniadau ar gyfer defnyddio *Digimap for Schools*. Gallwch ddefnyddio pob un o'r rhain NAILL AI gyda map o ardal ar fwrdd gwyn a'i addasu ar y sgrin, NEU drwy ddefnyddio mapiau wedi'u hargraffu o *Digimap for Schools* fel taflenni i'w dosbarthu pan nad yw cyfrifiaduron ar gael neu fel ymarfer gwaith cartref

- 1 Sut gallai'r ardal sydd ar eich map fod wedi edrych yn y gorffennol? Chwiliwch am awgrymiadau yn yr enwau lleoedd a rhai o'r symbolau sydd yno.
- 2 Dychmygwch eich bod yn werthwr tai ac am hysbysebu eiddo yn yr ardal. Beth yw'r nodweddion da a beth allai'r gwerthwr tai osgoi sôn amdano wrth ddarpar brynwyr?
- 3 Argraffwch fap a'i lynu ar ddarn o gerdyn trwchus. Torrwch ef yn ddarnau i greu jig-so, a gofynnwch i fyfyrwr arall ei roi yn ôl at ei gilydd. Ceisiwch adnabod y lleoliad o dan sylw. Beth oedd y raddfa a ddewisoch ar gyfer y map a pham?
- 4 Defnyddiwch fapiau o'r ardal leol i gwblhau un neu ragor o'r gweithgareddau hyn sy'n annog ymchwiliad creadigol o'r ardal leol www.missionexplore.net/reward/Mapping_badge.
- 5 Edrychwch ar yr ardal sydd o fewn 4km o'ch cartref. Ydych chi'n gallu amlygu rhywbeth ar y map nad oeddech wedi sylwi arno'n flaenorol? Ewch i ymweld â'r lle hwn.
- 6 (Ar-lein yn unig) Gan ddefnyddio 'Search' (Chwilio), a oes modd i ni ganfod lle sydd â'r nifer fwyaf o amrywiadau neu enghreifftiau ledled Prydain Fawr? Mae Newtown (Y Drenewydd) yn enghraifft o sgôr uchel gydag 11.
- 7 Rhowch fap o un sgwâr grid a gofynnwch i'r myfyrwyr ei ddefnyddio i annog y rhai sy'n byw yno i anfon neges Twitter (140 o gymeriadau neu lai). Fel arall, awgrymwch ddiweddariad ar Facebook y gallai'r trigolion ei anfon.
- 8 Dychmygwch nad yw eich ardal ym Mhrydain Fawr, a'i bod yn America yn lle hynny (neu wlad arall o'ch dewis - gallai fod yn wlad a astudiwyd gan y myfyrwyr yng Nghyfnod Allweddol 2 neu 3) - pa wahaniaethau fydddech chi'n sylwi arnynt o ran natur yr ardal a allai gael eu dangos ar y map?
- 9 Sut gallai'r ardal yn y map newid dros y 10, 20, 50 neu'r 100 mlynedd nesaf? A oes tystiolaeth o newidiadau sydd heb eu mapio eto?
- 10 Gofynnwch i fyfyrwyr ddychmygu mai nhw yw'r athro/athrawes ac yn gallu dewis mynd â'r dosbarth am y prynhawn i unrhyw le o fewn 10km i'r ysgol. Defnyddiwch y teclyn byffro i ddangos yr ardal hon fel haen dryloyw. Ble byddent yn mynd â'r dosbarth a pham?

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>



11 Gosodwch y Grid Cenedlaethol ar ardal map graddfa 1:50 000 a dangos ymyl dinas. Gan ddefnyddio'r teclyn **Symbolau** (pin coch) ar y **Bar Anodiadau**, gofynnwch i'r myfyrwyr ddewis pa sgwariau grid ar y map y byddent yn eu dosbarthu fel rhai trefol a'u nodi gyda seren. Dewiswch symbol arall ar gyfer sgwariau grid gwledig. Trafodwch dermau daearyddol ar gyfer y sgwariau sy'n weddill.

12 Ail-leoli: ble byddai myfyrwyr yn ail-leoli eu hysgol ym Mhrydain Fawr pe byddent yn gallu gwneud hynny? Pam maent yn dewis y lle hwn? Dynodwch y lleoliadau a awgrymir ar gyfer yr ysgol yn *Digimap for Schools*. Cynhaliwch bleidlais am yr awgrymiadau. Os mai tasg gwaith cartref yw hwn, gofynnwch i'r myfyrwyr anodi map o'r lleoliad hwn a rhoi eu rhesymau.

Mae'r rhain wedi'u haddasu o restr o syniadau a grëwyd gan Katherine Hutchinson, Pennaeth y Dyniaethau yng Ngholeg Cymunedol Chesterton, Caergrawnt, ar gyfer defnyddio mapiau papur yr Arolwg Ordnans.

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*

